

**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWDYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS LUN, 8<sup>FED</sup> MEHEFIN 2015 AM 6.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:** Maer y Dref, Y Cynghorydd Dr S. Roy, (Cadeirydd)  
Y Cynghorwyr W. Bagnall, J. Davies, Mrs L. Edwards, D. Griffiths, Mrs L. Griffiths, C. Hughes, Mrs M. Jones, Mrs H. Meredith, J. Pearson, C. Perry, Mrs V. Perry, D. Porter, P. Richards, Mrs V. Smith Y.H., S. Taylor, C. Wood MBE, S. Williams.

**SWYDDOG:** Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref

**HEFYD YN BRESENNOL:** Mr Lyn Cadwallader, Prif Weithredwr Un Llais Cymru

**46/15 Ymddiheuriadau am Absenoldeb:**

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr R. Foreman, A. Khan, A. Pearson, J. Reaney a G. Ward.

**47/15 Cyhoeddiadau'r Maer:**

Rhoddodd y Maer cyhoeddiadau byr ar lafar yn amlinellu nifer o ddigwyddiadau oedd ar ddod.

**48/15 Datgan Cysylltiadau:**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiad personol a / neu gysylltiad sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

**49/15 Ymwelydd â'r Cyngor:**

Croesawyd Lyn Cadwallader, Prif Weithredwr Un Llais Cymru (ULIC), i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, er mwyn iddo roi cyflwyniad am y gwasanaethau a roddir gan ULIC i'r cynghorau sy'n aelodau. Dechreuodd Mr Cadwallader trwy roi amlinelliad byr o'i yrfa hyd yn hyn a'i brofiad yn sector cynghorau lleol, gan fod yn gynghorydd cymuned am bum mlynedd cyn iddo ddod i'w swydd bresennol. Yna rhoddodd cyflwyniad oedd yn ymwneud ag amcanion a gwasanaethau ULIC, y cyfeiriad at y dyfodol a rôl newidiol cynghorau tref a chymuned a datblygiadau trefniadaeth o fewn ULIC. Gellir gweld y cyflwyniad o sleidiau yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn.

Dilynwyd y cyflwyniad gyda sesiwn o holi ag ateb gyda chwestiynau a sylwadau am: amcan ULIC i weithredu fel llais cynrychiolaidd unigol ar ran cynghorau tref a chymuned yng Nghymru a'r angen am fwy o gydweithrediad gyda mudiadau eraill, e.e. Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru (CCLIGChC); pryderon am y canfyddiad bod gan ULIC ffocws ar Dde Cymru; pryderon am rôl gyfnewidiol Cynghorau Tref a Chymuned a'r pwysedd i fyny ar archebiannau; trafodaeth am 'fap' disgwylidig llywodraeth leol yn y dyfodol a'r effaith gall hyn gael ar gymunedau / gwasanaethau lleol; peryglon o ail-greu sector cyngor dosbarth mewn popeth ond enw; tybiaeth mai bod yn fawr dim yn angenrheidiol yn golygu bod yn well a'r angen i unrhyw newidiadau bod yn wirfoddol, trwy rannu ymarfer gorau; realiti llymder ariannol a'r angen i weithio'n agosach

gydag Awdurdodau Lleol er mwyn rhoi gwasanaethau lleol ar y cyd gyda llai o gyllid ac / neu reoli dirywiad heb golli sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd angenrheidiol.

Diolchwyd i Mr Cadwallader am fod yn bresennol ac am ei gyflwyniad addysgiadol ac un i bryfocio meddwl, ac yna fe adawodd y cyfarfod.

#### **50/15 Cofnodion:**

- a. *Penderfynwyd derbyn, cymeradwyo a llofnodi cywirdeb cofnodion*
  - i. *Cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar 20<sup>fed</sup> Ebrill 2015.*
  - ii. *Cyfarfod Blynnyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 11<sup>eg</sup> Mai 2015.*
- b. *Penderfynwyd derbyn copi o gofnodion y cyfarfodydd canlynol:*
  - i. *Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 28<sup>ain</sup> Ebrill 2015.*
  - ii. *Pwyllgor Polisi a Chyllid a gynhaliwyd ar 20<sup>fed</sup> Mai 2015 (Drafft)*
  - iii. *Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 26<sup>ain</sup> Mai 2015.*

#### **51/14 Materion yn Codi o'r Cofnodion Hyn :**

- a. *Penderfynwyd cadarnhau argymhellion y Pwyllgorau fel y dangosir yn y Cofnodion a ganlyn:*
  - i. *Cofnod 7/15 - Penodi Cynrychiolwyr i Fudiadau Allanol (eitem a ohiriwyd), gyda'r newidiadau canlynol:*
    - *Cynghorydd C. Hughes i gymryd lle'r Cynghorydd W./ Bagnall ar Ffederasiwn Amgylcheddol Nant Eirias.*
    - *Cynghorydd Mrs V. Perry i gymryd lle'r Cynghorydd S. Williams ar Grŵp Ymgynghorol Merton Place.*
    - *Cynghorydd Dr S. Roy i gymryd lle'r Cynghorydd Mrs I. Edwards ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol St Joseph.*
  - ii. *Cofnodion 15/15(c) - Cyflogi Ymgynghorydd Cynllunio i gyflwyno cais cynllunio llawn i newid y defnydd o Neuadd y Dref (i ddefnydd cymysg), am gost dybiedig o £565.*
  - iii. *Cofnod 24/15 - Grantiau i Ddigwyddiadau: Rhoi Grantiau i Ddigwyddiadau ar gyfer 2015/16 i'r mudiadau y cyfeirir atynt yn Atodlen 'B' sydd gyda hwn.*
- b. *Penderfynwyd nodi gweddill penderfyniadau'r Pwyllgorau fel y maent yn ymddangos yn y Cofnodion.*

#### **52/15 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol:**

*Penderfynwyd cadarnhau argymhelliad y Pwyllgor Polisi a Chyllid (12/11/14) i fabwysiadu talu lwfansau i aelodau o 2015/16 yn unol ag argymhellion 43, 44, 46 a 47 ond yn eithrio 42 a 45, fel y maent yn ymddangos yn Atodiad 'C' sydd gyda hwn..*

#### **53/15 Cofrestr o Gysylltiadau'r Aelodau:**

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, cyngor diweddaraf Un Llais Cymru, yn cadarnhau nad yw'n ofyniad cyfreithiol i aelodau cynghorau tref a chymuned cwblhau cofrestr fanwl o'u cysylltiadau ar ddechrau pob tymor mewn swydd ac i ddiweddarau hwn yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i bob aelod parhau i ddatgan cysylltiadau wrth iddynt ddod gerbron mewn cyfarfodydd o'r cyngor ac i gwblhau'r ffurflen angenrheidiol i gofnodi'r rhain. Y wybodaeth a ddaw o'r ffurflenni hyn a ddefnyddir i roi gwybodaeth ar dudalen cysylltiadau aelodau newydd ar wefan cyhoeddus y Cyngor.

*Penderfynwyd derbyn y cyngor diweddaraf yma a'i nodi.*

**54/15 Cyfarwyddyd ar y Cod Ymddygiad:**

Dosbarthwyd copi o'r cyfarwyddyd diwygiedig i aelodau Cynghorau Tref a Chymuned gan y Clerc. Gofynnwyd i'r Aelodau cadw copi o hwn yn eu ffeiliau aelodaeth i gyfeirio ato yn y dyfodol.. Gofynnwyd i'r Aelodau sydd angen copi caled cysylltu â'r Clerc.

**55/15 Y Cyfrifon Blynyddol a'r Archwiliad:**

- a. Dosbarthwyd copi o Ddatganiad Cyfrifon 2014/15 gan y Clerc ac fe wahoddwyd cwestiynau arno gan yr Aelodau.

*Penderfynwyd cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon am 2014/15.*

- b. Cyflwynodd y Clerc Adroddiad yr Archwiliad Mewnol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31<sup>ain</sup> Mawrth 2015 gan y Clerc i gael ei ystyried.

*Penderfynwyd nodi sylwadau'r Archwilydd Mewnol ac i ddirprwyo'r cyfrifoldeb o adolygu ac argymhell newidiadau i'r Rheoliadau Ariannol i gyd-fynd a'r Rheolaeth Fewnol a ddiweddarwyd ynglŷn ag awdurdodi taliadau electroneg i'r Pwyllgor Polisi na Chyllid.*

**56/15 Cynllun Gwaith 2015/16:**

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, nodau ac amcanion y Cyngor (2012-2017) a gymeradwywyd, a gofynnodd i'r Aelodau ystyried y cynllun gwaith a ddiweddarwyd ar gyfer 2015/16.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hughes at yr angen i'r Cyngor Tref ystyried ei rôl wrth ddatblygu / diweddarau'r cynllun lleol / cymunedol ar gyfer ardal Bae Colwyn, er mwyn sicrhau bod buddiannau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn cael eu cyfeirio at brosiectau lleol sy'n cyd-fynd ag anghenion cydnabyddedig ac yn cael cefnogaeth ehangach y gymuned. Dywedodd bod James Hartland am roi cyflwyniad ar y mater yma mewn cyfarfod buan o Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned.

*Penderfynwyd cymeradwyo'r cynllun gwaith ar gyfer 2015/16 fel y gwelir yn Atodlen 'D' sydd gyda hwn.*

Daeth y cyfarfod i am 8.00 p.m.

..... Cadeirydd